

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Mehefin 21 ain 2017 am 7.30 o'r gloch.

Minutes of Llanddona Community Council meeting held on 21st June 2017 at 7.30pm

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Rhian Hughes (Cadeirydd/ Chairperson), Maldwyn Williams, Hanna Elin Hughes, Geraint Parry (Clerc/Clerk) a Cyngorwyr Ward Seiriol Carwyn Jones a Lewis Davies.

2. Ymddiheuriadau/Apologies - dim / none

3. Datgan Ddiddordeb/Declaration of interest

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb / *There were no declaration of interest*

4. Cofnodion/Minutes - Penderfynwyd derbyn y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17ddeg o Mai fel rhai cywir gan Hanna Hughes, eilwyd gan Myrddin Roberts / *Minutes of the previous meeting held on 17th May were accepted as accurate Hanna Hughes, seconded by Myrddin Roberts.*

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

- 5.1 **Diffibrilwyr / Defibrillators** - Esboniodd y Clerc fod Cadeirydd Grŵp Seiriol yn awgrymu i ni gysylltu â Sefydliad Prydeinig y Galon. Awgrymodd Cyng. C Jones i ni aros am wybodaeth bellach / *Clerk explained that the Chair of the Seiriol Group suggested we approach the British Heart Foundation. Clr. C Jones suggested we await further information.*
- 5.2 **Lôn Glanrhyd / Glanrhyd Lane** - Arwyddion "Anaddas i Gerbydau llydan" - penderfynwyd gadael yr arwydd ger Erw Gain a monitro sefyllfa. Clerc i ofyn i'r Cyngor tynnu'r arwydd ger Arfon House ac ail osod yr arwydd gyferbyn a Brookfield / *Signs "Unsuitable for wide vehicles" - It was decided to leave the sign by Erw Gain and monitor the situation. Clerk to ask the County Council to remove the sign by Arfon House and re-erect the other sign opposite Brookfield.*
- 5.3 **Cae Chwarae Plant / Children's Playing Field** - Contractwr wedi cwblhau'r gwaith / *Contractor has completed the work*
- 5.4 **Lôn Hafoty, Tyllau ar lonydd lleol / Hafoty Road, Holes on local roads** - Cyngor Sir wedi cwblhau'r arolwg traffig - 812 o gerbydau dyddiol ar hyd lôn Hafoty a 927 o gerbydau o dop Allt Coch i Landdona. Esboniodd y Clerc - cynhaliwyd yr arolwg dros gyfnod o 7 diwrnod o'r 8/03/17 a chyfrif y cerbydau yn y ddau gyfeiriad. Penderfynwyd holi pa ddull a ddefnyddiwyd a lle ar y ddwy ffordd oedd yr offerion wedi ei lleoli ar gyfer yr arolwg. / *The County Council have completed the traffic survey - with 812 vehicles daily along Hafoty road with 927 vehicles from the Top of Red Hill to Llanddona. Clerk explained - the survey took place over 7 days from the 8/03/17 and counted the vehicles in both directions. It was decided to enquire what method was used and where on both roads was the equipment located for the survey.*
- 5.5 **Parcio yn Ponc y Felin / Parking at Ponc y Felin** - Penderfynwyd chwilio am unrhyw grant perthnasol a gofyn i'r Cyngor Sir am gyngor. Awgrymodd y Clerc y dylem ystyried gwneud cais am grant Shell ar gyfer greu llefydd parcio ychwanegol. Pwysleisiodd Cyng. L Davies y dylem flaenoriaethu hy'n sy'n bwysig i'r pentre'. / *It was decided to search for any applicable grant and ask the County Council for advice. The Clerk suggested we should consider applying for the Shell grant to cover the cost of creating additional parking spaces. Clr. Davies emphasised that we should prioritise what is important to the village.*
- 5.6 **Tyllau lonydd lleol / Holes on local roads (01/17)** - Cafwyd trafodaeth am gyflwr ffyrdd lleol yr ardal ar angen nawr i flaenoriaethu pa ffyrdd sydd angen i atgyweirio gyntaf / *There was a discussion about the condition of local roads in the area and the need to prioritise which roads need repairing first.*
- 5.7 **Llwybr Tai Bach / Tai Bach Footpath** - Cyfarfod cyhoeddus wedi cymryd lle ar 6/06/17 dros ddau ddiwrnod yn Neuadd y Pentre'. Eglurodd y Cadeirydd y digwyddiad yn ystod y diwrnod cyntaf. Rydym yn awr yn aros am ganlyniad gan yr arolygaeth / *Public meeting took place on 6/06/17 over two days. The Chairperson explained what was discussed during the first day. We now await the outcome by the inspectorate.*
- 5.8 **Toiled Cyhoeddus / Public toilet (05/17)** - Oherwydd heriau cyllidebol mae'r Cyngor Sir yn darparu'r cyfle i redeg y toiledau cyhoeddus yn y traeth o 1/10/17. Derbyniwyd costau rhedeg ar gyfer 2015/16 - £4,835.64 a 2016/17 - £4,866.59. Dilyn trafodaeth, penderfynwyd yn unfrydol bod y costau rhedeg yn rhy ddrud i'r Cyngor Cymuned i weithredu / *Due to budgetary challenges, the County Council are providing the opportunity to operate the public toilets at the beach from 1/10/17. Received the running costs for 2015/16 - £4,835.64 and for 2016/17*

- £4,866.59. Following discussion it was unanimously decided the the running costs was too expensive for the Community Council to operate.

6. Adroddiad gan y Cynghorwyr / Report by the County Councillors

- Cyng. L Davies - yn adrodd ar y rhestr gan adran Priffyrdd o'r gwaith arfaethedig ar y gweill i atgyweirio ffyrdd lleol. / *Clr. L Davies reported on the list by the Highways Department of proposed work in hand to repair local roads.*
- Cyng. C Jones yn esbonio'r angen o wybod beth sy'n digwydd ynghylch y penderfyniad gyda'r Neuadd y Pentre' a'r Hen Ysgol. Eglurodd y Cadeirydd fod y cyfarfod gan Pwyllgor y Neuadd Bentref yn cael ei gynnal i benderfynu ar y ffordd ymlaen. / *Clr. C Jones explained the need of knowing what is happening regarding the decision with the Village Hall and the Old School. The Chairperson explained that a meeting by the Village Hall committee is to be held to decide the way forward.*

7. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

- 22C232 – Cynllun Diwygiedig - cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i annedd yn Ty Mawr – dim gwrthwynebiad / *Amended Plans – Full application for conversion of an outbuilding into a dwelling at Ty Mawr, Llanddona – no objection.*

Penderfyniadau / Decisions

- 22C39E - cais i bennu os oes angen caniatad ar gyfer codi sied amaethyddol i gadw peiriannau ag offer ar dir yn Llygaid y Rhos, Llaniestyn - nad ydyw'r cynigiad angen caniatad / *Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed to store machinery and tools on land at Llygaid y Rhos, Llaniestyn – it has been determined that the proposal does not require permission.*
- 22C224A - cais llawn ar gyfer codi annedd ar dir yn Glyn Afon, Llanddona – wedi ei caniatu / *Full application for erection of a dwelling on land at Glyn Afon, Llanddona – has been granted.*

8. Fynwent Llaniestyn / Llaniestyn Cemetery

Gynhaliwyd gwasanaeth i gysegru'r Fynwent Newydd ar 21/06/17 am 9.30 o'r gloch gan Esgob Bangor gydag un ar hugain o bobl yn bresennol am y gwasanaeth / *The service to consecrate the New cemetery took place on the 21/06/17 at 9.30am by the Bishop of Bangor with twenty one people present for the service.*

9. Tir Comin / Common Land

- 9.1 Glyndŵr (Cae Lili) (02/17) - Hawddfraint - disgwyl gwybodaeth bellach gan gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran Cae Lili / *Easement - awaiting further information from the solicitor acting on behalf of Cae Lili.*
- 9.2 Comin Llaniestyn / *Llaniestyn Common Land* (01/17) - cytunwyd i ddilyn i fyny'r hawddfraint y beipen dwr a osodwyd ar draws y comin tuag at badog Tŷ Ben. Disgwyl. Disgwyl gwybodaeth bellach oddi wrth Swyddog o Cyfoeth Naturiol Cymru / *It was agreed to follow up the easement regarding the water pipe installed across the common towards the paddock at Tŷ Ben. Awaiting further communication from the Officer from Natural Resources Wales.*
- 9.3 Tir Comin ger Pensarn / *Common Land by Pensarn* – Dim newyddion bellach / *No further information.*
- 9.4 Cyng. M Williams yn adrodd bod y Cyngor Sir wedi agor draen ger Mynydd Crafoed. Ydi darn yma yn dir comin? / *Clr. M Williams reported that the County Council has opened a drain by Mynydd Crafoed. Is this common land?*
- 9.5 Clerc wedi cysylltu â deiliad Tre Gof er mwyn cael symud y cerrig sydd wedi ei lleoli ar y tir comin / *Clerk has contacted the householder of Tre Gof in order to move the stones located on common land.*

10. Cyfrifon / Accounts

Trafodwyd a chytuno i dalu / *Discussed and agreed to pay:-*

- Cyflog / *Salary* – £387.44
- HMRC - £90.00

11. Gohebiaeth / Correspondence

- E-bost Adran Pryffyrdd / *E-mail Highways department*
- E-bost Toiledau / *E-mail - Toilets*

12. UFA/AOB:

- 12.1 Trafodwyd y sefyllfa bresennol gyda'r Ysgol a'r cae chwarae cyfagos. Penderfynwyd rhoi blaenoriaeth ar y Fynwent Newydd a thrafod yr Ysgol mewn cyfarfod diweddarach / *Discussed the current situation with the School and the playing field nearby . It was decided to prioritise on the New Cemetery and discuss the School at a later meeting*
- 12.2 Adroddwyd bod y meinciau plastig ger Caffi'r Traeth wedi cael eu dwyn. Hefyd wedi derbyn adroddiadau o barcio anghyfreithlon at y traeth / *It was reported that the plastic benches by the Cafe at the beach have been stolen. Also received reports of illegal parking on the beach.*
- 12.3 Ymgynghoriad Ysgolion Gynradd Ward Seiriol - Adran Addysg yn cynnig cyfarfod ar y cyd ar y 3, 5 neu 6 o Orffennaf. Clerc i gynnig Canolfan Hamdden fel lleoliad. / *Seiriol Ward Primary School Consultation - Education department offer a joint meeting on 3,5 or 6th of July. Clerk to suggest the Leisure Centre as a venue.*
- 12.4 Ymgynghoriad Gwasanaeth Bysiau 53/57/58 yn cau ar 23/06/17 / *Bus service 53/57/58 consultation closes on 23/06/17*
- 12.5 Gwydnwch Cymunedol - dilyn cyfathrebu gan y Swyddog Cynllunio Brys Rhanbarthol, penderfynwyd gwahodd y swyddog i ein cyfarfod nesaf / *following communication from the Regional Emergency Planning Officer, it was decided to invite the officer to our next meeting*
- 12.6 Cyng. M Roberts yn adrodd bod nifer o dirfeddianwyr lleol wedi derbyn llythyrau bygythiol gan y Cyngor sir yn hysbysebu bod ganddynt saith niwrnod i dorri coed a llys dyfiant lle mae'r clawdd yn ei pherchnogaeth / *Clr. M Roberts reported that reports that many local landowners have received threatening letters by the County Council that they have seven days to cut down trees and overgrown hedges in their ownership.*
- 12.7 Cyng. M Williams – angen torri'r canghennau ger y gyffordd T yn Llansadwrn / *need to cut the branches near the T junction at Llansadwrn.*
- 12.8 Esboniodd y Clerc y rheolaeth gan y Rheolydd Pensiynau ynghylch cynnig pensiwn i'w gweithwyr. Ar yr achlysur hwn mae'r Clerc wedi gwrthod y cynnig. / *Clerk explained the regulation by the Pension Regulator regarding offering a pension to its employee. On this occasion the Clerk has turned down the offer.*
- 12.9 Clerc wedi gorchymyn llyfrau cofrestru i'r Mynwent Cymuned Llanddona a Llaniestyn trwy'r argraffydd / *Clerk has ordered registration books for the Community Cemetery Llanddona and Llaniestyn via the printer.*

13. Dyddiad cyfarfod nesaf /Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.55 o'r gloch. Penderfynwyd trefnu cyfarfod nesaf ar 19/07/17 am 7.30 yn Capel Peniel.

There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9.55pm. Next meeting to be held on 19/07/17 at 7.30pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad